

# COED NADOLIG

## RHAGARWEINIAD

**TAFLEN**  
**WYBODAETH**  
**CALU**  
Tachwedd 2008  
Cyf: 050403:



### RHAGARWEINIAD

Mae tyfu coed Nadolig yn ddewis y mae mwy a mwy o ganolfannau garddio, planhigfeydd a busnesau eraill yn ei ystyried. Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r nifer a gynhyrchir wedi cynyddu'n sylweddol, o 4.4m o goed a gynhyrchwyd ym Mhrydain yn 2001, i 6.5m yn 2005. Fodd bynnag, caiff tua miliwn o goed Nadolig eu mewnfario o'r cyfandir bob blwyddyn, yn bennaf o Ddenmarc.

Mae dadleuon cryf dos sefydlu planhigfa o goed Nadolig, yn cynnwys cryfder yr Ewro. Mae hyn yn gwneud i goed a fewnforir ymddangos yn llai deniadol wrth i'w prisiau godi. Hefyd mae'r ffaith bod coed Nadolig wedi'u tyfu'n lleol yn ffactor farchnata bwysig a all annog cwsmeriaid i'w prynu. Fodd bynnag, mae sefydlu a chynnal planhigfa o goed Nadolig yn dasg sy'n mynd â llawer o amser ac sydd angen sgiliau yn ogystal â chraffter. Bydd yn cymryd tua 7 i 10 mlynedd cyn y bydd y cnwd cyntaf o goed Nadolig yn barod ar gyfer y farchnad.

### RHYWOGAETHAU

Defnyddir llawer o rywogaethau fel coed Nadolig: mae rhai yn fwy ffasiynol rai blynyddoedd na'i gilydd. Yn hanesyddol, pyrwydden Norwy oedd y goeden Nadolig draddodiadol. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae gwahanol fathau o goed ffynidwydd wedi dod yn fwy poblogaidd na'r pyrwydd. Maent yn tueddu i gadw eu nodwyddau'n well ac maent yn llai pigog. Fodd bynnag, maent yn arafach yn tyfu ac felly'n ddrutach i'w cynhyrchu. Yn Nhabl 1 dangosir nodweddion y rhywogaethau mwyaf cyffredin o goed Nadolig a brynir ym Mhrydain:

**Tabl 1: Rhywogaethau cyffredin o goed Nadolig**

Enw cyffredin	Enw botanegol	Nodweddion
Ffynidwydden Lwydlas	<i>Abies procera</i>	Arogl 'Nadoligaidd' nodweddiadol, nodwyddau meddal, cymryd tua 10 – 12 mlynedd i dyfu i 2m; tueddu i ddiodef oddi wrth rew hwyr (mae hyn yn wir am yr holl <i>Abies</i> ), pH pridd tua 5.0
Ffynidwydden Nordman	<i>Abies nordmanniana</i>	Nodwyddau meddal, dal ei nodwyddau'n dda iawn. Twf cytbwys fel pyramid, cymryd tua 10 – 12 mlynedd i dyfu i 2m; tueddu i ddiodef oddi wrth rew hwyr (mae hyn yn wir am yr holl <i>Abies</i> ), pH pridd tua 5.0
Ffynidwydden Fraiser	<i>Abies fraseri</i>	Dail gwyrdd trwchus, arogl conifer cryf, dal ei nodwyddau'n dda iawn, pH pridd 5.0 - 5.8. Bydd ar goed a drawsblennir yn 5 oed angen 5-8 mlynedd arall i gyrraedd 2 – 2.40m
Pyrwydden Norwy	<i>Picea abies</i>	Coeden Nadolig draddodiadol; siâp pyramid cytbwys, lliw gwyrdd tywyll hynod hardd ac arogl ffres; mae blaenau'r nodwyddau'n bigog, pH pridd 5.5 – 6.5. Cymryd tua 8 – 12 mlynedd i gyrraedd maint ar gyfer gwerthu.
Ffynidwydden yr Alban	<i>Pinus sylvestris</i>	Conifer sy'n gwreiddio'n ddwfn ac nad yw eisiau cymaint o sylw â rhywogaethau eraill, tyfu'n naturiol ar safleoedd gwael, pH pridd ychydig yn alcalinaidd ac asidig (pH 5.0 – 7.5). Nid oes ganddi siâp nodweddiadol Nadoligaidd, gellir eu gwerthu ymhen 5 i 7 mlynedd yn dibynnu ar eu maint pan werthir hwy.

## PLANNU A BYLCHAU RHWNG Y COED

Caiff trawsblaniadau dwy i bedair oed, a dyfwyd mewn planhigfa, eu plannu yn eu safleoedd terfynol yn ystod y tymor cwsg – o ddiwedd Tachwedd i ddechrau Ebrill. Rhaid cymryd gofal bod y planhigion yn dal yn eu cyflwr cwsg adeg plannu er mwyn sicrhau bod cyfradd uchel yn gafael. Rhaid gwarchod y gwreiddiau rhag golau haul a gwynt bob amser yn ystod y gwaith plannu rhag iddynt sychu a marw. Gall haen denau o chwyn yn ystod y flwyddyn gyntaf fod yn fanteisiol gan eu bod yn amddiffyn y gwreiddiau i ryw raddau. Fodd bynnag, rhaid bod yn ofalus gan y bydd gormod o gystadleuaeth gan chwyn yn atal twf y coed.

I sicrhau bod y cnwd yn datblygu i gynhyrchu coed o'r un siâp a maint, mae'n bwysig cael bwlch priodol rhwng y coed. Ar gyfer ffynidwydd Nordman a llwydlas, argymhellir bwlch o 1.2m x 1.2m gyda llwybrau bob 12m – 20m. Plennir pyrwydd naill ai 1m x 1m neu 1.2m x 1m. Wrth blannu'r blanhigfa mae angen ystyried y lle sydd ei angen ar gyfer ffensio a llwybrau fel y gellir mynd at y coed yn rhwydd i'w trin. Yn Nhabl 2 ceir syniad o'r coed y gellir eu cael mewn hectar gan ddefnyddio'r gwahanol fylchau plannu, unwaith y cymerir llwybrau a ffensys i ystyriaeth.

**Tabl 2: Bylchau wrth blannu**

Bylchau	Coed/ha (nominal)	Coed/ha (yn cynnwys ffensys a llwybrau)
1m x 1m	10,000	8,700
1m x 1.2	8,300	7,220
1.2m x 1.2m	6,900	6,000

## CYNNAL A CHADW

### Tocio a Thorri

O'r flwyddyn gyntaf ymlaen, mae tocio a thorri yn angenrheidiol i wella ansawdd y coed. Mae tocio'r sbrigau isaf hefyd yn hwyluso mynediad at y cnwd. Mae'r gwaith hwn yn gwneud y dail yn fwy trwchus yn ogystal â chadw siâp y goeden. Mewn rhai achosion lle mae'r blaguryn blaen wedi methu, mae angen gwasgu'r blaguryn a chael cangen flaen arall i dyfu er mwyn cadw'r siâp iawn.

### PLÂU AC AFIECHYDON

**Pryfed glas ac adelgids** – mae'r rhain yn sugno nodd y planhigyn ac yn chwistrellu sylweddau iddo sy'n effeithio ar dwf ac atgenhedliad y planhigyn. Mae adelgids yn ymosod ar gonifferau'n unig, tra bo pryfed glas yn ymosod ar amrywiaeth eang o blanhigion. Gellir eu trin gyda gwahanol fathau o bryfleiddiaid.

**Pydredd gwreiddiau ffytoffthora** – achosir hyn gan ffwng a all fyw yn y pridd mewn cyflwr cwsg am nifer o flynyddoedd. Mae'r afiechyd hwn yn effeithio ar amrediad eang o goed. Mae'r symptomau'n cynnwys nodwyddau'n gwywo a melynu, yn ogystal â brigau'n marw.

**Malltod band coch ar nodwyddau** - achosir hyn gan y ffwng *Dothistroma septosporum* a gall ddigwydd mewn conifferau o bob math, ond ffynidwydd a effeithir yn bennaf. Mae'n effeithio ar nodwyddau o bob oed gan arwain at golli nodwyddau/dail ar raddfa fawr.

**Afiechyd gollwng nodwyddau** – achosir hwn gan ffwng ac mae'n effeithio ar nodwyddau'r flwyddyn flaenorol. Y symptomau yw smotiau brown neu felyn ar y nodwyddau a nodwyddau'n disgyn. Gellir eu trin gyda ffwngleiddiad a chnghorir cael gwared ar goed wedi'u heintio'n ddrwg.



Achosir **rhwd** gan y gwiddonyn rhwd, gwiddonyn erioffyd gyda phedair coes (yn wahanol i widdon pry copyn sydd ag wyth coes). Mae angen lens llaw (20x) i'w hadnabod. Ar goed ffynidwydd, ceir y gwiddon ar wyneb y nodwyddau, yn aml ar ochr dde-ddwyrain y goeden. Defnyddir sylffwr i'w trin.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio plaeiddiaid/ffwngleiddiaid priodol. Os nad ydych yn sicr pa gemegau i'w defnyddio, holwch eich ymgynghorydd.

**Mae cwningod** yn fygythiad mawr i blanhigion ifanc gan y gallant godi'r gwreiddiau a bwyta blagur ifanc. Mae angen ffensio i amddiffyn y cnwd.

### DEDDFWRIAETH AR BLANNU

Cyn plannu mae'n rhaid cael Asesiadau Effaith ar yr Amgylchedd gan y Comisiwn Coedwigaeth os yw'r blanhigfa'n fwy 5.0ha mewn ardaloedd nad ydynt yn rhai sensitif a 2.0ha mewn ardaloedd sensitif (parciau cenedlaethol, ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol ac ardaloedd golygfaol cenedlaethol).

### DEDDFWRIAETH AR DORRI COED

Mae'r un rheoliadau ar dorri coed yn berthnasol i blanhigfeydd coed Nadolig ag i blanhigfeydd coed eraill. Nid oes raid cael trwydded dorri os yw'r coed o'r diamedr canlynol (wedi'i fesur 1.3 o'r llawr):

- 8 cm neu lai a
- 10 cm neu lai ar gyfer teneuo

Oherwydd maint coed Nadolig pan werthir hwy, efallai na fydd angen trwydded dorri yn y rhan fwyaf o achosion.

### MARCHNATA

Unwaith y penderfynir p'run ai i gyfanwerthu neu fân-werthu'r coed, mae gwahanol ffyrdd o werthu'r cynnyrch:

- Wedi eu torri
- Mewn potiau
- Torri (neu godi) eich coeden eich hun

Gwerthir coed yn ôl eu taldra. Yn nhabl 3 nodir y prisiau gwerthu ar gyfer gwahanol goed Nadolig yn 2007. Mae nwyddau fel torchau a garlantau, yn ogystal â standiau ac addurniadau ar gyfer coed Nadolig, yn ychwanegiadau gwerthfawr ar gyfer y busnes.

Tabl 3: Prisiau mân-werthu coed wedi'u torri (2007)

Maint y goeden	Ffynidwydden	Ffynidwydden	Pyrwydden	Ffynidwydden
	Fraiser	Lwydlas	Norwy	Nordman
	Pris gwerthu (£)			
5ft (1.52m)	33.0	36.7	19.0	34.5
6ft (1.83m)	36.8	41.8	22.0	38.3
7ft (2.13m)	44.3	47.8	25.0	43.3
8ft (2.44m)	49.8	48.3	28.0	48.3

Ffynhonnell: arolwg CALU

### PACIO

Er hwylustod eu cludo, gwerthir coed Nadolig yn aml mewn rhwydi. Gellir prynu twmffatiau rhwydo o wahanol faint am wahanol brisiau (tua £150 am rai bychain - £300 am rai mwy; heb gynnwys costau rhwydi a chyllyll).

